

Pris: 40c

Papur Pawb

Hydref 2006Rhif 322

Marciau Llawn i Ysgol Llangynfelyn

Cafodd Ysgol Gynradd Llangynfelyn arolwg byr ym mis Mehefin 2006 ac unwaith eto cafwyd canlyniadau da iawn. Yn ôl Owen Glyn Roberts, y prif arolygwr, “ Mae Ysgol Llangynfelyn yn ysgol gartrefol a hapus ble derbyniar disgyblion gynhafiaeth a chefnogaeth gynhwysfawr waeth be fo’u cefndir na gallu. Mae ymdrechion yr ysgol i sicrhau dwyieithrwydd ei disgyblion ac i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang, yn rhagoriaeth amlwg.” parhad tudalen 6

Drewdod a Pherygl yn Heol James



Ym mhen draw Heol James gerllaw'r patshyn glas, mae yna orsaf bwmpio carthffosiaeth sydd bellach yn hen, ac yn methu dygymod â'r lefel bresennol o garthion a bwmpir drwyddi. Yn ystod 2004 bu sawl byrst yno gan greu drewdod annioddefol, a'i gwneud yn amhosib i drigolion agor eu ffenestri nac aros yn ardd am unrhyw gyfnod o amser – problem sydd yn ddifrifol ar unrhyw adeg, ond lawer yn waeth yn ystod yr haf.

Oherwydd methiant yr orsaf i ddelio â'i charthion, ers 2004 felly bu contractwyr Dŵr Cymru yn cludo carthion o'r orsaf i'r gwaith trin lleol mewn loriau tancer mawr. Weithiau mae rhaid gwneud deuddeg trip mewn diwrnod ac mae'r tanceri mawr yn achosi difrod difrifol i wyneb yr heol, gan achosi perygl i gerddwyr ac i gerbydau. Mater o amser yw hi cyn i rywun gael damwain. Gofynnodd y trigolion i'r Cyngor atgyweirio'r ffordd – ond dywedodd y Cyngor mai heol breifat yw Heol James, ac nad oes arnynt unrhyw gyfrifoldeb i'w thrwsio. Felly pwy sy'n gyfrifol am drwsio'r difrod?

Ar 22 Medi 2006 ysgrifennodd Aelod Seneddol Ceredigion, Mark Williams, at Dŵr Cymru yn gofyn sut oeddent yn bwriadu gwella'r sefyllfa. Mae hefyd wedi gofyn i Gyfarwyddwyr adrannau Iechyd Amgylcheddol a Phriffyrdd Cyngor Sir Ceredigion i ymchwilio i'r mater, ac mae'n disgwyl eu hymateb wrth i *Papur Pawb* fynd i'r wasg.

Mae Cyngor Ceulanamaesmawr a Gwasanaethau Amgylcheddol Gogledd Cymru hefyd â'u trwynau yn y briwes, mae'n debyg, ond mae trigolion Heol James, yn y cyfamsr, yn dal yn y caca.



Papur Pawb		
Golygyddion Cyffredinol:	Eleri a Gwylwm Huws Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion. gehpengwern@yahoo.co.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832231
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch:	Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch	832295
Parsel Henlllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn	832438 832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog	832429 (01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
CYMDEITHAS PAPUR PAWB		
Cadeirydd:	Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont	832718
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Plwygwr:	Lyn Hammonds, Beti Jenkins, Dafydd Parri, Gwenllian Parry-Jones	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	
Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg		

Gwobr Ffermwraig y Flwyddyn
Mae NFU Cymru yn annog
merched cefn gwlad i geisio am
wobr NFU Cymru / Natwest
Ffermwraig Gymreig y Flwyddyn
2006/07. Bwriad y gystadleuaeth
yw dathlu cyfraniad merched i
ddiwydiant sydd hyd heddiw yn
cael ei ddominyddu gan ddynion.

Cysylltwch â NFU Cymru am

ffurflen gais: 01982 554200;
sarah.jones@nfu.org.uk, neu NFU
 Cymru, Cartref Amaeth, Maes y
 Sioe Frenhinol, Llanelwedd,
 Powys, LD2 3TU.

Gŵyl y Golau, Machynlleth
Wythnos gyfan o Wyl y Golau ym
Mro Ddyfi, gyda llusernau, tân
gwyllt a goleuni. Ffotograffiaeth
ymarferol, celf, creu llusernau a
gweithgareddau i blant. Ffilm,
cerddoriaeth aawns. Bydd
Gorymdaith y Llusernau a'r tân
gwyllt yn ddiwedd glo mawreddog
ym Machynlleth (6:30 o'r gloch
nos Sadwrn Hydref 28ain).

Cynhelir
Ffair y Neuadd
Tal-y-bont
ar DDYDD SADWRN,
25 TACHWEDD
am 2.00 o'r gloch
Ceir manylion pellach yn
y rhifyn nesaf.

15 **Bethel** 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 R.H. Lewis
Rehoboth 5 W.J. Edwards
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

16 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Cwis
Cerddorol, Faleri Jenkins
C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch. Cwrdd
Diolchgarwch – Capel
Rehoboth

17 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Ymarferion Siarad
Cyhoeddus

22 **Bethel** 2 Parch Terry
Edwards
Nasareth 2 Terry Edwards
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi

24 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch**

26 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Cyfarfod
Blynnyddol a Swper
Diolchgarwch

29 **Bethel** 10 Trefn Lleol
Nasareth 10 Nicholas Bee
Rehoboth 5 Nicholas Bee
(C)
Eglwys Dewi Sant

31 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Ymweld â BBC
Radio Cymru

5 **Bethel** 6 Gweinidog
Nasareth 10 T.J. Irfon
 Evans
Rehoboth 10 Tegwyn Jones
Eglwys Dewi Sant
C.Ff.I. Gala Dathlu 70 oed
C.Ff.I. Caerdydd

Cododd y casgliad o gwmpas cartrefi Talybont yn ystod Wythnos Bad Achub (24-28 Gorffennaf 2006) £179.96 ar gyfer Bad Achub RNLI Borth. Y cyfanswm a gasglwyd yn yr ardal oedd £2,003.20. Yn gynwysiedig yn y swm yma mae £589.18 a gasglwyd gan ein criw Bad Achub lleol o feysydd carafannau a chlybiau Borth.

Diolch yn fawr am yr ymateb hael hwn ar ran yr RNLI.
Mae'r help a chefnogaeth a roddoch yn hanfodol ar gyfer y gwyr
a'r gwragedd dewr sy'n gwasanaethu'n wirfoddol yn yr ardal hon
ac sy'n achub bywydau ar y mor ar ein harfordir lleol.
Gwerthfawrogir hyn yn fawr gan yr RNLI.

Fel casglwyr, hoffem ninnau ddiolch yn ddidwyll i chi am eich cefnogaeth hael i'r achos ac am y ffordd garedig y cawsom ein croesawu ar eich haelwydydd.

Eirlys Jones a Myrtle Parker

- 7 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Ymweld â Bad Achub Borth
- 12 **Bethel** 2 Parch Terry Edwards
Nasareth 2 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 10 Pryderi Llwyd Jones
Eglwys Dewi Sant
- 14 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Noson yng nghwmni Dylan o'r R.A.C.
- 19 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 2 Walford L. Gealy
Rehoboth 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Dewi Sant
- 20 **Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch.** Rwth Jên a Helen. Gwneud cardiau Nadolig
- 21 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Ymarferion y Steddod
- 23 **Sefydliad y Merched, Tal-y-bont.** Prynhawn 2-5 p.m. Swyddog Tân yn ein cartrefi
- 26 **Bethel** 2 Parch Andrew Lenny
Nasareth 5 Tudor Davies
Rehoboth 10 Tudor Davies (C)
Eglwys Dewi Sant
- 28 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Noson Grefft yng nghwmni Rwth Jên

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Helen, Ceri a Dafydd Saer .
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd
Mair Nutting (832027) a
Beryl Evans (832344) gyda
Ceri'n dylunio (stiwedio@ceri-
talybont.com). Dylai'r deunydd
fod yn llaw'r golygyddion erbyn
dydd Gwener 3 Tachwedd a bydd
y papur ar werth yn y siopau
ddydd Gwener 10 Tachwedd.



NEWYDDION TRIST

Brawychwyd y pentref cyfan pan glywyd am farwolaeth ddisymwth Dr Catrin Prys Jones, Afon Dawel, Tal-y-bont, brynhawn Mercher 4 Hydref. Roedd Catrin, a oedd yn 30 oed, yn hanu o'r Fali, Ynys Môn, a chydymdeimlwn yn ddwys â'i chynabod i gyd yn eu colled.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Anwen Southgate ac Andrew sydd wedi dyweddio yn ddiweddar.

Damwain

Cafodd David Evans, Neuaddfawr ddihangfa lwcus iawn yn ddiweddar pan moelodd y beic 4 olwyn ar dir llithrig. Cludwyd ef i'r ysbyty am driniaeth ar ei ysgwydd. Bydd rhaid i ti ymlacio ar dy wyliau yn Florida nawr Deil!

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn gyda Emyr a Shan Breese a'r merched ar farwolaeth tad Emyr, sef John Ellis Breese, Wern Phillip, Comins Coch.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Iolo Davies, Doleifion, Tre'r-ddôl ar gael ei ddewis i fod yn gapten ar dîm rygbi Ieuenctid Aberystwyth eleni. Pob lwc iddo fo ac i'r tîm.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Mererid James, Cwmudw, Tal-y-bont sydd newydd ddechrau yn ei swydd newydd yn Ysgol y Berllan Deg, Llanedeyrn, Caerdydd. Pob hwyl i ti gyda'r plant bach.

Croeso

Croeso i Elfyn Jones sydd newydd ymgartrefu yn Hyfrydle, Tal-y-bont.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn gyda David a Mair Nutting a'r bechgyn ar farwolaeth ewythr i David, sef Mr Evan Nutting, Pennal.

Croeso

Croeso i Raymond a Brenda sydd newydd symud i Minffordd.

Croeso Nôl

Croeso nôl i Lowri, Patrick, Rhys a Siôn i'w cartref newydd, Tyncae, Tal-y-bont ar ôl bod yn y fyddin yn Kenya am chwe blynedd. Pob hapusrwydd i'r teulu bach.

Pobl a Phethe



Priodas

Ddydd Sadwrn 29 Gorffennaf, yn Eglwys Dewi Sant, Talybont, priodwyd Kelly, merch hynaf Tony a Dorothy Green, Pantglas, Talybont, a Matthew Bishop o Maes y Felin, Penrhynoch. Gweinyddwyd gan y Parch. B. Thomas.

Y gwas priodas oedd Stephen Hughes (ffrind y priodfab) a'r morynion oedd Debbie Lewis (chwaer y briodferch) a Lynn Evans (ffrind y briodferch). Y morynion bach oedd eu dwy ferch bedydd, Sophie Bishop a Megan Davies, a Mason Evans, eu mab bedydd, oedd y gwas bach. Cynhaliwyd y wledde yn Ngwesty Tyglyn Aeron, a theuliwyd y mis mêl yng Ngweriniaeth Dominica.

Dymunwn bob hapusrwydd i Kelly a Matthew yn y dyfodol.



Llygaid Sgwâr

Mae Gwydion Jones, Gellimanwydd wrth ei fodd yn eistedd o flaen y sgrin deledu yn gwyllo'r rygbi y dyddiau yma. Pam? Bu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan S4C yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni a'r wobwr oedd clamp o deledu sgrin wastad. Adnabod Jonesiaid enwog oedd y dasg a osodwyd fel ran o ymgyrch hysbysebu ar gyfer cyngerdd fawr yng Nghanolfan y Mileniwm ar y trydydd o Dachwedd.

Pen-blwydd Priodas

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mair a David Nutting, Tŷ Hen sy'n dathlu ugain mlynedd o fywyd priodasol ac hefyd i Alun a Janet Jones, Llwynglas, Talybont, a fu'n dathlu pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ar 12 Medi.

Mrs Lywela Evans

Yn dawel yn Ysbyty Tregaron ar 4 Medi bu farw Mrs Lywela Evans, Caerdova, Talybont, priod y diweddar Roy Evans. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Iau 7 Medi. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu a ffrindiau Lywela yn eu colled.

O'r Ysbyty

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Mrs Anne Jones, Tremafon, Talybont, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar ac hefyd i Jack White sydd wedi cael triniaeth ar ei lygad.

Actorion Talentog...

Bu Cwmni Drama Licyris Olsorts yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama Corwen, gyda thair ar ddeg o gwmnïoedd drama yn cystadlu'n glos dros 6 noson. Roedd gan y Cwmni ddwy ddrama yn cystadlu, sef Ôl Traed yn y Tywod a Gwisg dy ddillad Clarisse. Ar ôl cystadlu brwd fe ddaeth dau actor o'r cwmni i'r brig ar y nos Sadwrn. **Siôn Pennant** o Bont Goch, yn cipio Tlws yr Actor Gorau dros 25 a **Catrin Jenkins** o Ffwrnais yn dod i'r brig fel yr Actor Ifanc Gorau o dan 25. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant a phob lwc i'r dyfodol.

Bon Voyage...

Pob hwyl i **Emsyl James** a fydd yn mynd ffwrdd i deithio'r Byd diwedd y mis gan bawb o Gaffi Blue Creek.

Ffrindiau Cartref Tregerddan

Ar ail ddydd Sadwrn fis medi cynhaliwyd Te prynhawn a stondinau amrywiol yn y Cartref. Roedd Janet a Tegwen yn gyfrifol am y stondin gacennau a chyffeithiau ac ar ddiwedd y prynhawn gwnaed swm sylweddol o dros £200 tuag at y Cartref.

Dymuna'r ddwy ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y prynhawn.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



Bwyd a ffermio

Ein thema'r tymor hwn ydy bwyd a ffermio ac rydym wedi manteisio'n llawn ar y ffaith ein bod yn byw mewn ardal amaethyddol drwy ymweld â nifer o ffermydd yr ardal. Carwn ddiolch o galon i deuluoedd Ty'n graig, Berthlwyd, Cerrig Caranau a Phenbompren am eu croeso ac am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer. Fe gawsom ddigon o hwyl yn eich cwmni gan ddysgu llawer am dulliau ffermio gwahanol hefyd.

Bu'r plant lleiaf yn ymweld â Fferm Ffantasi hefyd gan gynorthwy i fwydo'r anifeiliaid.

Mae'r gwahol ddsbarthiadau wedi bod yn paratoi ac yn coginio danteithion blasus hefyd o gremnogau i pizzas i siyni tomatos gwyrdd i ychwanegu at ddealltwriaeth y plant o fwyta deiet cytbwys.

Cerddorfa Symffoni Cymru

Yn ystod y mis aeth plant yr Adran Iau i weld Cerddorfa Symffoni Cymru yn chwarae amrywiol ddarnau cerdd yng Nghanolfan y Celfyddydau. Roedd yn brofiad gwahanol i'r plant weld a chlywed cerddorfa'n chwarae'n fyw.

Criw Craff

Ar ddiwedd y mis aeth dros 50 o blant yr ysgol i weithdai amrywiol a drefnydd gan yr Heddlu yn ymwneud â chadw'n ddiogel. Yn ystod diwrnod "Criw Craff" cafodd y plant gyfle i ddysgu am bethau fel hylendid bwyd, peryglon ysmygu, peryglon tân a sut i ddefnyddio trydan yn ddiogel.



Nicola Davies

Ar y 5ed o Hydref daeth yr awdures a'r bardd Nicola Davies i'r ysgol i gynnal gwiethdai ar sut i fynd ati i ddechrau ysgrifennu. Roedd hi wedi canolbwyntio'r gwaith ar freuddwydion a hunllefau. Fe wnaethom fwynhau ei chlywed yn darllen ei barddonaieth gan ddysgu ychydig am Shakespeare yr un pryd.

A DAVIES
TRYDANOL
Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Os am ddaethoch chi i'r ysgol

CAMBRIAN
CABS
Gwilym Pelli ac Agnes
01970 626292

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Gydag un ymddiheuriad am absenoldeb yn unig cyfarfu'r Cyngor nos Lun olaf o fis Medi gyda'r Cadeirydd Cyng. Ellen ap Gwynn yn croesawu'i chyd Gynghorwyr wedi egwyl fis Awst. Nid oedd yr un mater ar agenda'r Cyngor yn hawlio datgan diddordeb personol gan yr un aelod. Cytunwyd bod cofnodion Gorffennaf yn adroddiad cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

Yn dilyn cais y Cyngor yma y mae Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir wedi cadarnhau yr ymgwymerir a gwelliannau i bompren dros yr afon Leri rhwng Cerrig Mawr a Penbompren Uchaf yn fuan. Deallir hefyd fod trefniadau ar y gweill i godi pompren newydd dros yr un afon rhwng Tŷ Hen a Braichgarw. Ar ôl tynnu sylw'r Adran Priffyrdd i ddiffygion ar rannau o'r ffordd i gyfeiriad Bwlchgarreg cafwyd gwybodaeth fod y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol wedi'i wneud.

Y mae Swyddog Cyfathrebu a'r Gymuned i Ardal Biosffer Dyffryn Dyfi wedi cysylltu â'r Cyngor er mwyn hybu cyfarfod cyhoeddus sydd i'w gynnal yn y Neuadd Goffa nos Fercher, 18 o'r mis yma am 6.45 y.h. Thema'r cyfarfod yn fwyaf arbennig fydd amaethyddiaeth yn y gymuned.

Atgoffwyd y Cyngor fod Menter Aberystwyth yn barod i helpu cymunedau ac ar hyn o bryd yn cynnig safle we am ddim i bob cymuned o fewn ei dalgylch ac o dan nawdd prosiect Cysylltu Cymunedau.

Anfonwyd eilwaith at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i ofyn am arwydd newydd i'r pentref a'i osod ger Gwynfa gan fod cyflwr yr un presennol yn annerbyniol o wael ac atgoffa'r Adran fod yr arwydd i'r pentref ger y fynwent wedi diflannu ers mis Mai a'i bod yn bryd cael un newydd yno hefyd.

Derbyniwyd ffurflenni adroddiad ariannol blyneddol y Cyngor hyd ddiwedd Mawrth eleni yn ôl oddi wrth yr Archwilwyr yn Southampton. Nid oedd yr un mater arno yn gofyn sylw arbennig. Rhoddwyd y ffurflen gerbron y Cynghorwyr ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol fel adroddiad boddhaol ganddynt. Yn ôl gofynion yr Archwilwyr rhoddwyd yr adroddiad ar yr hysbysfwrdd am bythefnos er mwyn i aelodau'r cyhoedd gael cyfle i'w gweld.

Mynegodd y Cyng. Evan Evans bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd y nifer o blismyn sydd â chyfrifoldeb am heddlu'r ardaloedd gwledig yn debygol o gael ei haneru o bedwar i ddau o'r tîm presennol. Penderfynwyd anfon at Brif Arolygwr yr Heddlu yn Aberystwyth i geisio sicrwydd na fydd heddlu yn y cymunedau yn lleihau na'r safon yn gostwng oherwydd unrhyw fwriadau ar eu rhan.

Rhoddwyd llythyr ar ran trigolion Pantycalch a Heol James gerbron y Cyngor oedd yn mynegu teimladau cryf am gyflwr gwael y stryd ac sy'n arwain i'r orsaf bwmpio carthffosiaeth. Adroddwyd bod loriau trymion wedi bod yn ôl ac ymlaen am ddeuddeg llwyth yr un diwrnod i wacau'r orsaf yn ddiweddar gyda'r canlyniad bod cyflwr y ffordd, sy'n ffordd breifat, yn gwaethygu. Y mae'r Aelod Seneddol, Mark Williams, hefyd wedi ymweld â'r safle ac wedi gohebu gyda Dŵr Cymru. Anfonwyd llythyr hefyd gan y Cyngor Cymuned sy'n cytuno a chefnogi'r cais am waith cynnal a chadw buan er mwyn gwella cyflwr y stryd yma.

Ci cloi

Mae diwrnod Sioe Tal-y-Bont megis breuddwyd i lawer erbyn hyn ond roedd y diwrnod hwnnw yn un fythgofiadwy i Katie Prickett, Llety Llwyd, a'r ci, Mole. Cipiodd y whippet/Patterdale terrier chwim y wobr gyntaf yn ras y pencampwyr eleni eto ac mae'r llwyddiant erbyn hyn yn dipyn o draddodiad iddo. Llongyfarchiadau ac ymlaen i fuddugoliaeth yn sioe 2007.



Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Mae'r tymor newydd wedi cychwyn yn brysur iawn, wedi haf hir o ymlacio a mwynhau!

Birmingham o'r diwedd

Yn dilyn ymgais aflwyddiannus i fynd i Ysgol Holy Family, Birmingham yn haf 2005, oherwydd bygythiadau terfysgol, llwyddodd blwyddyn 5 a 6 fynd yno cyn gwyliau'r haf. Cafwyd llawer o hwyl a gweithgareddau celfyddydol ar y tren ar y ffordd i fyny, yng nghwmni Catrin Webster a Cath Sherrell, o Ganolfan y Celfyddydau, a bu'n brofiad gwerthfawr iawn i gael anturio drwy ganol dinas Birmingham, cael pendroni yn y "Think Tank", ac yna ymweld â'r ysgol. Roedd hynny yn brofiad ynddo'i hun – cael gwersi mewn ysgol hollol ddinesig. Roedd y croeso yn gynnes, a braf oedd cael ail-gynnau cyfeillgarwch gyda ffrindiau o'r flwyddyn cynt.

Fel rhan o'r un prosiect – Y Prosiect Teithio Celf – cafwyd ymweliadau gan aelodau o'r gymuned leol i'r ysgol, a cafodd y plant gyfle i sgwrsio â hwy, i drafod eu bywydau, ac i gyflwyno rhai elfennau ar ffurf drama. Bu'n gyfnod buddiol i bawb a gymrodd ran, a diolch i Catrin Webster a Siw Jones Davies am eu harweiniad da.



Dychweliad Catrin Webster

Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael ei dewis i fod yn un ysgol allan o chwech drwy Gymru, sydd yn cael manteision profiad a sgiliau artist lleol i changu a datblygu gwaith y tymor. Mae Catrin yn mynychu'r ysgol ar nifer o achlysuron i edrych ar y Filltir Sgwar, ac i ddatblygu gwaith traws-gwricwlaidd o hynny. Mae'r plant wrth eu bodd yn cael ymchwilio i hanes lleol, ac i geisio rhagfynegi pa fath o ardal fydd Llangynfelyn a'i chyffiniau yn y dyfodol. Ar ddiwedd y prosiect, bydd arddangosfa o'r gwaith i'w gael yn yr ysgol.

Sioe Arad Goch

Ar Fedi 18fed, bu plant lleiaf yr ysgol yn ffodus iawn i mynychu sioe Arad Goch yn Ysgol Rhydypennau. Cafodd y plant eu gwefreiddio gan y sioe, a mawr y bu'r siarad amdani ar y ffordd adref.

Gwasanaeth Roger Thomas

Ar fore Llun Medi 25ain, daeth Roger Thomas i'r ysgol i gymryd y gwasanaeth boreol. Bu'n siarad a dangos lluniau am y cynhaeaf yn ein gwlad, a'i gymhwyso yn effeithiol i'n hangen am roi diolch am bob rhodd y cawn gan Dduw.

Y Criw Craff

Brynhawn Llun, Medi 25ain, bu blynyddoedd 4,5 a 6 yn arddangosfa Y Criw Craff, yn Aberystwyth. Yno roedd llawer o asiantaethau cymorth a diogelwch, ac roeddent oll yn rhoi cyflwyniad 10 munud i'r disgyblion. Roedd yr asiantaethau yn cynnwys y gwasanaethau brys, diogelwch ar y ffordd, diogelwch trydanol ac yn y blaen, a bu o fwynhad a lles i'r disgyblion a fynychodd.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personal

Martin Davis
Key-Word, The Talkers, MACHYNELLETH
Pwys 3720 830 Cymru
Ffôn/Ffôn +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Taith Cwm Clettwr

Ar ddiwrnod hyfryd o ha' bach Mihangel, bu Mr Chris Fuller, cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol, yn ddigon caredig i arwain plant CA2 i fyny i Gwm Clettwr, fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth am y tymor. Braf iawn oedd cael tynnu ar ei wybodaeth am blanhigion ac anifeiliaid yr ardal, ac mae pob un o'r disgyblion yn cofio enwau y coed prin a welwyd yno.



Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol ar brynhawn dydd Mercher, Hydref 18fed, am 2 o'r gloch. Bydd Mrs Dulcie James yn annerch y plant. Mae croeso mawr i chi ymuno yn y diolch.

Gareth a'i drombôn yn disgleirio!

Mae'r rhai ohonom sy'n cofio Gareth Roberts – mab hynaf John a Jill, Felin Llifio, Talybont – yn ystod ei ddyddiau ysgol yn Nhalybont a Phenweddig yn ei gysylltu â chwarae'r iwfoniwm. Bu'n aelod o nifer o fandiau pres, yn lleol ac yn genedlaethol, yn y cyfnod hwnnw. Bellach, fodd bynnag, mae'r cerddor 32 oed wedi newid i chwarae'r trombôn, ac ers nifer o flynyddoedd bu'n chwarae Jazz o gwmpas Caerdydd a De Cymru. Mae'n chwarae



mewn amryw o fandiau Cymreig, yn cynnwys Cerddorfa Cyfansoddwyr Jazz Cymru a phumawd Jazz wedi ei ffurfio a'i redeg ganddo ef, a byddant yn chwarae nifer o gyfansoddiadau Gareth.

Ar ôl graddio mewn Peirianeg Sifil ym Mhrifysgol Nottingham, dychwelodd Gareth i Aberystwyth i ddilyn cwrs Ymarfer Dysgu Mathemateg. Symudodd i Gaerdydd ym 1998, ac am 5 mlynedd bu'n athro llawn amser yn Ysgol Gyfun Rhydywaun cyn i ormod o nosweithiau hwyr ar y sîn jazz ei orfodi i adael er mwyn dilyn cwrs Ôl-Raddedig mewn Jazz yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru!

Mae Gareth yn brysur iawn fel trombonydd ac yn ogystal â chwarae gyda nifer fawr o fandiau y mae hefyd yn debyn gwaith rheolaidd yn chwarae ar y teledu a'r radio. Mae Gareth hefyd yn dysgu'n rhan amser yn Ysgol Gyfun Glantaf, yn arwain a chyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer dau fand jazz disgyblion ysgol, ac fe'i cyflogir gan sawl mudiad gwahanol i redeg gweithdai cerdd ar gyfer disgyblion o bob oed.

Mae Gareth newydd ryddhau ei CD cyntaf, sef "The Attack of the Killer Penguins", a gellir ei phrynu oddi ar y wefan www.garethtrombone@yahoo.co.uk Dymunwn yn dda iawn i Gareth yn ei fywyd prysur fel cerddor proffesiynol ac edrychwn ymlaen at glywed rhagor amdano yn y dyfodol.

I.O. Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn

Cig Ffres i'r Rhegwll, Seliig Carref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Marciau Llawn i Ysgol Llangynfelyn

Dywed yr adroddiad fod ansawdd yr addysgu yn well na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2007 o 95% o wersi yn radd 3 neu well a 65% yn radd 2 neu well. Yn Ysgol Llangynfelyn mae 100% o wersi yn radd 3 neu well ac mae 93% yn radd 2 neu well.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Mae amrediad da o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau addysgol a chyswllt ag ysgolion eraill yn cyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae'r cynllunio bwriadus a'r modd sensitif y mae'r ysgol yn hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion yn nodwedd rhagorol. Mae ansawdd darpariaeth y Cwricwlwm Cymreig yn dda. Mae'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol yn gweithredu camau ailgylchu yn ei bywyd bob dydd ac wedi cymryd rhan mewn prosiectau penodol ynglŷn ag arbed ynni a lleihau gwastraff.

Mae'n ymateb yn dda i anghenion dysgu'r holl disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysol a chymdeithasol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bob disgybl ac mae'n nodwedd rhagorol. Cefnoga'r rhieni waith ac ymdrechion yr ysgol a gwerthfawrogant y polisi 'drws agored' sy'n bodoli o fewn yr ysgol. Mae'r llwyodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda, yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol.

Mae gweithrediad y Cyngor Ysgol 'Criw Cynfelyn' yn fodd effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o brosesau democrataidd ac mae nifer o awgrymiadau'r Cyngor wedi'u gwireddu.

Mae'r modd y mae holl bolisiau'r ysgol, ynghyd â'i harferion dydd i ddydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb gan gynnwys yr athrawon, y staff cynhaliol a'r disgyblion yn nodwedd rhagorol. Mae rheolaeth ariannol yn dda ac mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Llongyfarchiadau i blant ac athrawon yr ysgol ar adroddiad penigamp.



Nôl mewn amser i'r Ebenezers

Doedd pethe ddim fel y buon nhw ym Maes y Felin ychydig wythnosau yn ôl pan laniodd criw ffilmio yng nghartref Lynn a Mark Ebenezer i ffilmio raglen yn y gyfres “Retro” a fydd yn ymddangos ar S4C yn fuan. Ymgartrefodd y criw cynhyrchu yno am bron i wythnos a thrawsnewid bywydau’r teulu’n llwyr i gyfnod y dauddegau. Meddai Elen “Roedd pawb yn gorfod gwisgo i fyny yn nillad y cyfnod a buom ni’n bwyta bwyd a chwarae gemau o’r dauddegau hefyd.” Uchafbwynt yr wythnos i Sam oedd cael mynd am driip i lan y mor mewn car hen ffasiwn a chael nofio yn y môr mewn trynys gwlanog, gwahanol iawn i’r rai a wisgai yn y clwb nofio. Yn anffodus doedd camerau cudd Papur Pawb ddim wedi llwyddo i dynnu lluniau Mark a Lynn yn eu dillad nofio. Gwyliwch y raglen i weld mwy!

Bitsh!
addasid John Ogwen
o'r nofel gan Eirwyn

Rhian Blythe, Catrin Fychan,
Maldwyn John, Eiliv Jones,
Camryn Jones, Mairwyn,
Jonathan Refydd

NEWYDD Dwyfor 10/11 Hydref 01758 704088
Theatr Gwynedd 12/13 Hydref 01248 351708
Cwmnï'r Frân Wen 17 Hydref 01970 623232
Theatr Bala 18 Hydref 01267 676695
Theatr Glyn Hafon 20 Hydref 01653 66757
Theatr Ardudwy 21/22 Hydref 01766 780667
Theatr John Ambrose 26/27 Hydref 01824 708933



Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont

Cynhaliwyd Bore Coffi a drefnwyd gan aelodau o Eglwys Dewi Sant Tal-y-bont ar fore dydd Sadwrn, 2 Medi. Roedd yr aelodau yn amlwg wedi bod yn brysur iawn yn casglu nwyddau i'w gwerthu ar y gwahanol stondinau. Braf iawn oedd gweld cynifer o bobl y pentref wedi dod i gefnogi'r achlysur a hefyd yr aelodau a ddaeth o Eglwysi Llanfihangel Geneu'r Glyn a Llangorwen. Derbyniwyd cyfraniadau oddi wrth amryw a fethodd fynychu'r Bore Coffi. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at yr achlysur llwyddiannus yma eleni eto. Diolch.

EJ

Gwasanaeth Diolchgarwch

I gynulliad da, gyda chefnogaeth ardaloedd cyfagos, cafwyd cyfarfod llwyddiannus yn Eglwys Sant Pedr, Bontgoch, eto eleni. Caswom bregethwr gwadd arbennig, sef y Tra Pharchedig Wyn Evans, Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Fe'i maged ym Mhenrhyn-coch, yn fab i'r diweddar Mrs Iris Evans a'r Parch. D. Eifion Evans, cyn-ficer Elerch gyda Phenrhyn-coch o 1948 hyd 1957. Yng ngofal y gwasanaeth roedd y Ficer, y Parch. John Livingstone, gyda chymorth darllenwraig, sef Mrs Lona Jones, Penrhyn-coch, a'r organyddes oedd Mrs Elisabeth James, Cwmudw, Talybont. Diolchir yn gynnes i Mr a Mrs Richard Huws am y lluniaeth wedi'r gwasanaeth.



**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

**James
Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am barmffed
rhad ac am ddiem

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)**

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mae ymgynghori ar ddyfodol gwahanol agweddau o'r Gwasanaeth Iechyd wedi dod yn arferiad dyddiol. Dros yr haf, mae'r NHS wedi bod yn ymgynghori'n ddiwyd yn yr ardaloedd hyn. Yr ymgynghori mawr, wrth gwrs, oedd ar ein hysbytai – mae'n edrych yn debyg nawr fod y cynlluniau i israddio gwasanaethau ym Mronglais a Llwynhelyg wedi eu rhoi i'r naill ochr am gyfnod. Y bwriad yw sefydlu Pwyllgor arall i edrych ar y cynlluniau yma, ac mae'n rhaid dweud na fydda i'n synnu os daw'r cynlluniau yma'n ôl eto cyn bo hir – siŵr o fod ar ôl etholiadau'r flwyddyn nesaf.



Mae yna ymchwiliad i ddyfodol y Gwasanaeth Ambiwlans hefyd yn digwydd ar hyn o bryd. Fe roddes i dystiolaeth i'r Ymchwiliad pan ymwelodd ag Aberystwyth yn ddiweddar. Heb amheuaeth, prif angen y Gwasanaeth Ambiwlans yn yr ardal yma yw cael adnoddau digonol i sicrhau fod digon o ambiwlansys a staff ar gael drwy'r adeg. Mae galwadau am ambiwlans ar gynydd ac mae mwyfwy o ambiwlansys yn gorfod trosglwyddo cleifion i Abertawe a mannau eraill – ac felly mae llai o ambiwlansys yn weithredol yng Ngheredigion. Rwyf hefyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar symud yr adran llawdriniaeth niwrolegol o Dreforus i Gaerdydd. Mae nifer o bobol o Geredigion wedi derbyn triniaeth yn yr Adran yma yn Nhreforus dros y blynyddoedd ac mae'r cynllun i'w symud i Gaerdydd yn newyddion gwael iawn i ni yma yn y gorllewin – yn enwedig i gleifion sydd mewn argyfwng ac angen triniaeth frys.

Mae'r misoedd diwethaf yma felly wedi bod yn un ymgyrch barhaus i ddiogelu'r NHS yn yr ardaloedd hyn. Mae'n ymddangos ambell waith fod yn rhaid brwydro i gadw'r gwasanaethau mwyaf elfennol, ac rwyf wedi gofyn y cwestiwn i Rhodri Morgan ar lawr y Senedd ai ei wir ddymuniad yw i weld pobol Ceredigion yn codi pac ac yn symud i gyd i ddarn o dir milltir sgwâr ar gyrion yr M4! Edrych arna i yn syn oedd ei ymateb – ac wedyn parablu mlaen am rywbeth neu'i gilydd.

**Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com**



ylolfa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Pa le y ganed Syr John Rhys?



Adfeilion Aberceiro - Bach



Capel Seion Ceulan

Aberceiro-bach

Dri chwarter milltir o Bonterwyd ar fin y ffordd i Nant-y-moch gwelir adfeilion hen fwthyn bychan unllawr gyda phlac a osodwyd arno ym Mehefin 1940 i ddathlu canmlwyddiant geni Syr John Rhys, ysgolhaig ac Athro Celfeg ym Mhrifysgol Rhydychen a Phrifathro Coleg yr Iesu, Rhydychen. Erbyn hyn derbynir mai yn y bwthyn bychan hwnnw a elwid yn Aberceiro-bach sydd wrth ymyl ac ar dir fferm Aberceiro y ganwyd John Rhys ar 21 Mehefin 1840, ond nid felly y credai pawb ar un adeg. Credai pobl Cwm Ceulan yn wahanol. Rhieni John Rhys oedd Hugh a Jane Rees. Y ddau'u gwreiddiau'n ddwfn yn yr ardal fynyddig honno rhwng Ysbyty Cynfyn ac Eglwysfach. Er mai Rees oedd enw arferol y teulu fe ddewisodd John ei newid i Rhys, yr enw cywir. Ganwyd Hugh Rees yng Nghwmeinion yn 1807, a Jane yng Nghreignant, Ponterwyd yn ferch i John ac Anne Mason yn 1813. Rhywbryd ar ôl 1820 aeth Hugh Rees i weithio i fferm Aberceiro ac ar 10 Tachwedd 1837 priodwyd Hugh a Jane yn eglwys Ysbyty Cynfyn. Ychydig iawn a wyddom am fywyd cynnar John Rhys rhwng 1840 a 1855 pan aeth yn ddisgybl-athro i ysgol Penllwyn. Yn ei hunangofiant nid yw'n sn fawr ddim am ei dylwyth nac am ddyddiau'i blentyndod, a hyn sy'n gyfrifol i raddau am y dadlau a'r trafod mawr fu ynghylch union fan ei eni a'i fagwraeth gynnar. Arweiniodd hyn at lythyru brwd yn y wasg leol a chenedlaethol dros gyfnod o dri degawd

Cwm Ceulan

Un o'r rhai cyntaf i lythyru oedd y Parch. John Davies (1852-1947), Bwlchydderwen, Bow Street. Bu'n weinidog ar y dair eglwys, Tabor y mynydd, Seion Ceulan a Thy-nant o 1878-1913. Yn 1886 priododd Anne Mason, Bwlchydderwen, Cwm Ty-nant, oedd o'r un tylwyth mam John Rhys. Anfonodd lythyr i'r *Western Mail* (20/12/1930) yn Saesneg gan ddweud, "*Ganwyd Syr John Rhys mewn lle o'r enw Coed-y-fongam yng Nghwm Ceulan, dair milltir o Dal-y-bont, Ceredigion, ac nid mewn bwthyn ger Ponterwyd. Heb amheuaeth, fe symudodd y teulu i gyffiniau Ponterwyd pan oedd yn ifanc iawn. Mae'r hen dy y ganwyd ef ynddo yn furddun ers 1880. Pan oedd Syr James Murray yn fyw, byddai'n treulio'i wyliau yn y Borth, a byddai'n mynd i fyny Cwm Ceulan bob blwyddyn bron i weld man geni Syr John.*" Albanwr oedd Syr James Augustus Henry Murray ac ef oedd sylfaenydd a golygydd yr *Oxford English Dictionary* o 1879 hyd ei farwolaeth ym 1915. Roedd ef a John Rhys yn gyfeillion agos iawn. Pam y dewisodd James Murray dreulio'i wyliau blynyddol yn y Borth o bobman sy'n ddirgelwch. Serch hynny, dim ond saith milltir oedd ganddo i'w teithio o'r Borth i Goed-y-

fongam, tra oedd deunaw milltir a hanner o'r Borth i Aberceiro-bach. Ymddangosodd ail lythyr gan John Davies yn y *Western Mail* (13/1/1931) gan ddweud "*Roedd Syr John Rhys ar un adeg yn cadw ysgol mewn capel bychan yng Nghwm Ceulan am rai misoedd yn ystod y gaeaf, fel oedd yr arfer y dyddiau hynny, ac fe ddwedodd hen wreigan sy'n fyw o hyd wrthyf iddi glywed pobl yn dweud fod prifathro'r ysgol wedi ei eni mewn ty o'r enw Coed-y-fongam rhyw ddauganllath o'r capel. Dywedai Syr James Murray, oedd yn ffrind mawr i Syr John Rhys, 'Ni chafodd Syr John Rhys ei eni ym Mhonterwyd, fe'i ganed yng Nghwm Ceulan'. Heb amheuaeth fe ddywedai hynny ar awdurdod Syr John Rhys ei hun. Mae Mr J. Bunce Morgan, sydd wedi ffermio Glanfred ers blynyddoedd ac yn dal Bwlchygarreg yn cofio un haf pan oeddynt yn cneifio ym Mwlchygarreg i ddwy foneddiges ddod yno wedi cerdded dros y mynydd o Bonterwyd. Dwy ferch Syr John Rhys oeddynt yn holi am gyfarwyddyd at y lle y ganwyd eu tad. Aeth Mr Parry o Gemaes, Sir Drefaldwyn hwy i lawr at adfeilion Coed-y-fongam.*" Wythnos yn ddiweddarach anfonodd Myfanwy Rhys, merch hynaf John Rhys lythyr at olygydd y *Welsh Gazette* yn dweud mai yn Aberceiro y ganwyd ei thad, a'i bod yn cofio'n dda amdani hi a'i chwaer Olwen yn mynd i Fwlchygarreg a'r croeso a gafwyd yno. Nid eu bwriad yn cerdded i Geulan oedd i olrhain eu tad, ond yn hytrach i chwilio am olion teulu ei fam - y Masoniaid. Fodd bynnag, ni chafwyd amser i weld y cartref.

Y Dystysgrif Geni

Gwadwyd honiadau John Davies hefyd gan Tom Morgan o Ysbyty Ystwyth mewn llythyr yn y *Western Mail* (28/1/1931) yn dweud bod Thomas Morgan, Tynffordd, Ponterwyd a chyfaill oes i John Rhys yn dweud iddo glywed gan Rhys ei hun mai yn Aberceiro y ganed ef. Ac i goroni'r cwbl cafodd Tom Morgan afael ar gopi o dystysgrif geni John Rhys oedd yn datgan yn glir iddo gael ei eni yn Aberceiro. Mewn llythyr yn y *Welsh Gazette* (5/2/1931) mae John Davies yn derbyn na all y dystysgrif geni fod yn anghywir ond gwrthoda gydnabod yr ensyniadau mai "chwedlau gwlad" oedd yr hyn a gyhoeddodd am John Rhys. Dywed ymhellach fod y bobl a roddodd yr wybodaeth iddo i gyd yn rhai anrhydeddus ac yn dal yn fyw ar wahn i Syr James Murray, oedd hefyd yn credu'n gydwobodol mai yng Nghwm Ceulan y ganwyd John Rhys.

Aeth pethau'n dawl am rai blynyddoedd wedyn hyd oni anfonwyd llythyr i'r *Western Mail* (19/6/1939) gan Mary M. Evans, Aberystwyth yn adrodd hanes Mrs Morgan, Nantcaerhedyn a Syr John Rhys yn ymweld r'bwthyn yn Aberceiro tua 1910. Wedi cael mynediad i'r hen fwthyn bach dywedodd, "*John Rhys yw fy enw, ac yma ym ganed i. Dyna ffenestr fach y llofft, a dyma'r aelwyd.*"

Y ddadl fawr

Dywedwch i mi, a ydyw'r garreg aelwyd ar gael o hyd? Ar ei phwys bu fy mam âm tad yn arfer eistedd tipyn ar ôl gorffen gwaith y dydd, ac yno dysgais fy ngweddi fach gyntaf.” Aeth y ddwy wraig oedd gydag ef ati i ysgubo'r gwellt a'r llwch oddi yno, ac o'r diwedd dyma'r garreg aelwyd i'r golwg. Ar unwaith aeth Syr John ar ei liniau ar y garreg a gweddiodd yn dyner iawn. “Nid anghofiaf i byth mo'r weddi honno”, meddai Mrs Morgan wrthym, “ac mae'n gywilydd inni fel Cymry nad oes dim ar y bwthyn bach i ddangos mai yno y ganwyd un o ddynion mwyaf cenedl ni.”

Rhydyronnen

Aeth ymron i ddegawd arall heibio cyn i James Pierce Evans (Jim y Siop), Bont-goch gyhoeddi erthygl yn y *Welsh Gazette* (15/7/1948) dan y teitl “*Syr John Rhys. Ei ddyddiau cynnar yng Nghwm Ceulan. Cychwynnodd ei rieni eu bywyd priodasol mewn bwthyn o'r enw Coed-y-fongam. Mab Llwyngwinau, a merch Rhydyronnen. Symud oddi yno i ardal Ponterwyd, lle y magwyd John Rhys. Bu John yn aros gyda'i dadcu a'i famgu yn Rhydyronnen pan yn blentyn. Cedwid ysgol y pryd hynny yng Nghapel Seion Ceulan, a bu John Rhys yno. Roedd y diweddar David Richards, Mynydd-gorddu yn byw yr adeg hynny yn Blaenceulan ac yr oedd yntau yn yr ysgol yn Seion Ceulan yr un amser John Rhys, a chanddo ef y cefais yr hanes. Dywedai Dafydd ei fod ef lawer yn gyflymach yn dysgu na John, ond y drwg oedd fod Dafydd yn anghofio yn gyflym hefyd, ond am John, roedd yn cofio pob iod a oedd wedi ei ddysgu. Darllen, ysgrifennu ac ychydig o rifyddeg a'r cyfan yn Gymraeg drwy, yn ôl yr hanes, am nad oedd yr ysgolfeistr yn deall llawer o Saesneg. Roedd hwnnw'n lletya yn Carregcadwgan, ffermdy cyfagos lle roedd hefyd ddau sais o waith plwm Nantynôd. Tebyg ydyw mai hon oedd yr ysgol gyntaf y bu Syr John Rhys ynddi. Yma y cychwynnodd ei yrfa ddisglair, mewn ysgol a'r Gymraeg yn unig yn cael ei defnyddio ynddi. Roedd ysgol Tal-y-bont yn hollol wahanol. Roedd un o fechgyn Cwm Ceulan yn honno cyn agor yr ysgol yn Seion Ceulan, sef Morgan Evans, Pantgarw. Dywedai ef fod y *Welsh Not* yno, a chosb arw am siarad Cymraeg.”*

Mewn llythyr a gyhoeddwyd yn *Y Cymro* (26/1/1951) gan John Rees, Tanyfron, Llwyngwrl, fe ddywed, “*Roedd fy nhad yn gefnder i dad Syr John a chofiaf iddo fy hysbysu mai yn Rhydyronnen, yng Nghwm Ceulan y magwyd Syr John yn blentyn gan ei famgu. Ni allaf sicrhau ai yno y ganwyd ef hefyd.*”

Cyfrifiad 1851

Yn anffodus y mae cofnodion Cyfrifiad 1841 ar gyfer Ceulan-a-maesmawr ar goll ac o'r herwydd mae'n anodd gwybod pwy yn union oedd yn byw yn Rhydyronnen. Fodd bynnag, yng Nghyfrifiad 1851 ceir mai John ac Anne Mason oedd yno gydag Anne y ferch, a John ac Abram y meibion. Hwy oedd tadcu a mamgu John Rhys. Gwyddom i rieni John briodi ym 1837 ac i John Rhys yr hynaf o'r plant gael ei eni yn ôl y dystysgrif ym Mehefin 1840. Mae'n ddigon posibl, felly, i'w rieni ddechrau eu bywyd priodasol yn y bwthyn bach a elwid yn Goed-y-fongam, dafliaid carreg o gapel Seion Ceulan. Bellach nid oes olion o'r lle ar ôl.

Bu Syr John Rhys farw'n sydyn ac annisgwyl ar 17 Rhagfyr 1915 yn ei gartref yn llety'r Prifathro yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychen. Bythefnos ynghynt roedd gwraig o Daliesin, oedd ers blyneddodd wedi ymgartrefu yn Rhydychen wedi bod yn ei weld gyda'i merch ac yntau mewn iechyd a hwyliau da gan ymgomio am hanes Tal-y-bont a Thre'r-ddôl. Trueni na fyddai John Rhys wedi cadw ar glawr yr hanesion rheini, yn arbennig hanes ei fywyd cynnar ei hun.

HLL



C.F.F.I. Tal-y-bont a'r Cylch

Braf oedd gweld cynifer o aelodau presennol ac aelodau newydd wedi ymgynnull nos Fawrth 5 Medi, pryd y cynhaliwyd ein Sosial Fach. Derek Davies ac Ifor Morgans oedd yn gyfrifol am ein diddanu gydag amrywiaeth o gêmâu.

Y nos Fawrth ganlynol buom yn ymarfer ar gyfer y cystadlaethau Chwaraeon Dan Do – dartiau, snwcyr, gwyddbwyll, draffts ayb.

Roedd y gystadleuaeth trwy'r sir yn cael ei chynnal eleni eto yn Neuadd Llanddewi Brefi, ar nos Wener 22 Medi. Aeth nifer o aelodau'r clwb yno i gefnogi, a bu sawl un yn cystadlu. Llongyfarchiadau i Siôn Glyn am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth snwcyr – tipyn o gamp!

Ar benwythnos 15–17 Medi, teithiodd rhai o'r aelodau hynaf i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Clybiau Ffermwyr Ifanc, yn Abertawe. Thema'r ddawns ar y nos Sadwrn oedd Prom Ysgol y 70au. Bu'r penwythnos yn gyfle gwych i gymdeithasu a dod i nabod aelodau o glybiau ar hyd a lled Gymru.

Daeth Rhydian Rees, Pensarnau, aelod o glwb Caerwedros, atom ar nos Fawrth 19 Medi. Bu'n sgwrsio am ei daith y llynedd i Kenya gan ddangos llun o luniau difyr. Y noson ganlynol cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol CFFI Ceredigion yn Felinfach – llongyfarchiadau i Gwen Davies, Silian, cyn-aelod o glwb Talybont, ar gael ei hethol yn Is-Lywydd y sir.

Yr wythnos ganlynol cafodd Clybiau Talybont, Llanddeiniol a Llangwryfon eu gwahodd i Sosial Fawr a drefnwyd gan clwb Trisant. Gyda Neuadd Capel Bangor yn orlawn, roedd yn gyfle gwych i gymdeithasu a chwrdd â wynebau newydd. Nos Fawrth, 3 Hydref, bu'n noson gystadleuol, gyda'r aelodau'n chwarae 'Who Wants to be a Millionaire' – yr aelodau iau yn erbyn y rhai hŷn! Mi oedd hi'n agos iawn rhwng y ddau dîm.

Cynhelir ein Cwrdd Diolchgarwch eleni ar nos Fawrth, 24 Hydref, yng Nghapel Rheoboth, Taliesin, ac estynnir croeso cynnes i unrhyw un a hoffai ymuno â ni yno.

CJ

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Arwydd sicr fod y gaeaf ar ei ffordd yw cymdeithasau'n ail gychwyn wedi saib dros wyliau'r haf. Ac ar Nos Lun, 18 Medi daeth aelodau o Ferched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch at ei gilydd unwaith yn rhagor. Braf oedd cael croesawu pawb yn ôl ac yn arbennig y ddwy aelod newydd, y naill o Dal-y-bont, a'r llall o Daliesin.

Cafwyd dechrau ardderchog i'r tymor newydd yng nghwmni Côr Meibion Powys, dan arweiniad Otto Freudenthal. Cyflwynwyd yr eitemau cerddorol ac amrywiol gan un o aelodau'r côr, Mr John Griffiths a chafwyd llawer o chwerthin wrth iddo adrodd straeon digri a rhannu ambell jôc gyda ni.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r côr gan lodes lèn o Faldwyn, Mrs Eryl Evans, a chafwyd swper blasus wedi ei baratoi gan pwyllgor newydd i gloi'r noson. Byddwn yn croesawu'r Prifardd a'r Prifathro Gwenallt Llwyd Ifan atom ar 16 Hydref, yng ngwaelod y Neuadd.

Margaret Alwen Williams

Margaret Alwen Williams, Y Berllan, Pentre Bach, dyna'r enw a'r cyfeiriad swyddogol ond wrth gwrs yn adnabyddus i bawb fel Mrs Williams Pen y Wern a hi fydd yn ein harwain ar hyd lwybrau'r cof y tro hyn ac ar derfyn y daith fe ddown gobeithio i nabod Mrs Williams dipyn yn well. Ac mae'r cof fel y grisial ac yn ymestyn yn ôl dros ganrif gan fod Mrs Williams wedi dathlu ei chanfed penblwydd yn mis Gorffennaf eleni. Ym mlwyddyn ei geni yn 1906 roedd Edward VII, mab Fictoria ar yr orsedd, y blaid Ryddfrydol wedi cipio bron pob sedd Gymreig yn yr etholiad cyffredinol a mudiad y Suffragettes yn brwydro'n galed i ennill y bleidlais i ferched.

Y cof cyntaf sy gan Mrs Williams yw iddi ymgartrefu ar fferm ei hewyrth a'i modryb gerllaw Llanfihangel Glyn Myfyr rhyw ddeng milltir o Gorwen. Roedd hon yn fferm fawr yn cyflogi deg o weision a dwy forwyn. Byddai gwaith y dydd yn cychwyn tua hanner awr wedi chwech ac yna ar ôl y tasgiau boreol byddai pawb yn dod i'r tŷ am frecwast ac fe fyddai ewyrth Mrs Williams yn arwain gwasanaeth crefyddol cyn i'r holl weision a'r morwynion wedyn ddychwelyd at waith y dydd. Roedd pawb ar wahan i'r teulu yn byw mewn llofftidd stabal ac yn cysgu mewn rhyw fath o ganfasau – rhywbeth tebyg i *hammocks*. Ar y fferm roedd na olwyn ddŵr fawr a honno'n gyrru pob math o beiriannau gan gynnwys y *separator* yn y llaethdy neu'r briws fel mae Mrs Williams yn ei alw. A'r peiriannau wrth gwrs yn cael ei defnyddio i wneud y menyn a'r cynnyrch arall a rheiny wedyn yn cael ei cludo i'r marchnadoedd yng Nghorwen a Cherrig Drudion a chartrefi'r fro.

Fe aeth Mrs Williams i'r ysgol yn Llanfihangel Glyn Myfyr a'i hoff bethau yno oedd canu ac adrodd ac fe fyddai wrth ei bodd yn cymeryd rhan yn y cyfarfodydd cystadleuol lleol. Roedd ganddi ac mae ganddi o hyd lais alto hyfryd ac mae'n dwyn i gof un digwyddiad yn arbennig. Hithau wedi cael ei hyfforddi i ganu'r emyn Telyn Seion ac yna yn y gystadleuaeth yn canu'r emyn ar diwn hollol wahanol, gyda'r beirniad yn rhyfeddu iddi fedru wneud y fath beth. Crio mawr wedyn a'i Mam yn ei chysuro drwy ddweud mai canmol nid beirniadau oedd y bwriad. Dysgu darnau hir ar ei chof ac yn ystod fy ymweliad a'i chartref fe adroddodd Mrs Williams ddarn hir am Ellis Edwards o'r Bala – yn berffaith air am air gyda phob pwyslais a goslef dramatig yn ei le.

Gadawodd Mrs Williams Llanfihangel Glyn Myfyr a symud yn ôl at ei rhieni, yn gyntaf i Betws Gwerful Goch ac yna i fferm Pen y Bryn, Llandegla. Dyma y Pen y Bryn a anfarolwyd gan Tegla Davies yn ei nofel Gwr Pen y Bryn, y stori afaelgar o gyfnod rhyfel y degwm a gyhoeddwyd yn 1923. Ym Mhen y Bryn roedd y teulu i gyd gyda'i gilydd a Mrs Williams y pedwerydd o naw o blant. Roedd y patrwm gwaith a ffermio rhywbeth yn debyg ond nawr Wrecsam oedd y dre farchnad a Mrs Williams yn cofio teithio yno yn wythnosol yn y cart a'r ceffyl neu yn hwyrach yn y bys – dim car gan neb. Mae'n cofio'n arbennig am un siop yn Wrecsam – siop dillad menwod smart iawn o dan berchnogaeth rhyw Madam Madelaine. Cymdoges yn prynu *fur cape* o'r siop, dod a'r dilledyn i Ben y Bryn a'i roi ar fwrdd ac yna pawb yn y stafell yn syfrdan wrth weld y dilledyn yn symud ar draws y bwrdd heb i neb ei gyffwrdd. Dychwelyd y *cape* i siop Madam Madelaine a chanfod fod neidir wedi ei gwinio i'r lining a honno oedd wedi llithro y dilledyn ar draws y bwrdd!

Roedd ei gŵr, Mr Williams yn dod o Arthog ger y Bala ar ac ar ôl i'r ddau briodi fe ddaethon nhw yn 1938 i fyw i Ben Y Wern. Ar yr adeg hynny doedd dim wyneb caled i'r ffordd o Daliesin a'r siwrne o'r ffordd fawr yn y cart a'r ceffyl rhywbeth yn debyg, yn ôl Mrs Williams i deithio mewn cwch! Mr a Mrs Williams yn dod o'r Gogledd ac yn nabod neb ond buan nethon nhw ymsefydlu yn yr




ardal a dod yn gyfellion da i'r cymdogion yn Llwynglas a Cherrig Carannau. Yn y dyddiau cynnar hynny doedd na ddim trydan – golchi gyda llaw, a chrasu pymtheg torth yr wythnos ac un torth o fara brith yn y ffwrn wal. Golau lamp neu gannwyll a'r daith helbulus i'r tŷ bach ar waelod yr ardd ar noson dywyll a stormus! Digon o waith tŷ felly a digon o waith tu allan hefyd – magu gwartheg duon a defaid ar dir y fferm ac ar y tir mynydd yn Penprys yn *Artist's Valley*. Bob blwyddyn fe fyddai Mrs Williams yn archebu cant o gywion ieir o Ddeorfa De Arfon, yn ei pesgi ac yn gwerthu mlan. Fe fyddai hefyd yn cadw pob math o ddofednod yn *muscovy ducks* a chymbacs a'r arfer hwn yn arwain at ddiddordeb arall sef beirniadau paratoi adar at y bwrdd (*trussing and dressing*) mewn sioeau lleol a chenedlaethol. Fe ddaeth Mrs Williams yn arbenigwraig ar y gamp ac wrth iddi daflu golwg dros y ffowlyn neu'r hwyaden ar y bwrdd cystadlu os fydd na blufyn ar ôl – dim gobaith a dim gwobr! Yn y pum degau fe ddaeth y trydan i Ben y Wern a bywyd felly rhywfaint yn haws ond yn ei hanfod yr un oedd y patrwm – dim son am wyliau, gweithio drwy gydol yr wythnos ac addoli yn Rehoboth Taliesin ar y Sul. Yn naturiol, gyda threigl y blynyddoedd fe ddaeth Mrs Williams i nabod pob cae a llwybyr ar dir y fferm a thu hwnt. Mae'n cofio cerdded ar draws Cors Fochno i weld y meddyg yn y Borth a dychwelyd wrth iddi nosi. Roedd yn hollol saff a sicr o'i cherddeddiad er fod peryglon y gors ond troedfeddi gerllaw.

Mae'n arferol bron i ofyn i berson a gyrrhaeddodd oedran mawr fel Mrs Williams – beth yw'r gyfrinach? Wel, dyw hi ddim wedi nac yn rhoi rhyw lawer o gred ar fwyta'n iach. Mae'n mwynhau ei bwyd ac yn cael brecwast o facwn a wŷ bob dydd ac mae'n llawer gwell ganddi fenyn Cymru na rhyw Flora felyn, denau! Mae hi'n sicr wedi cadw'r meddwl yn fyw ac effro ac un o'i hoff hobiau nawr yw chwarae drafft – gan guro ei mab Bob bron bob gêm. Ac ar derfyn fy ymweliad fe ges innau hefyd wahoddiad i ymuno mewn gêm o ddrafft a chael fy nghuro'n rhacs a Mrs Williams yn chwerthin yn iach ar ddiwedd yr ornest – un ochrog a dweud y lleiaf! Fel y dywedais ar y cychwyn mae'r cof fel y grisial ac i bob cwestiwn roedd Margaret Alwen Williams yn ateb gyda acen gref bro ei mebyd – *'Rargian fawr oeddw'n*. Wrth i fi adael dyma Mrs Williams yn edrych allan drwy ffenest ei chartref yn y Berllan ar ogoniant aber afon Dyfi ac yn adrodd llinellau oedd hi wedi gyfansoddi y diwrnod hwnnw.

Rwy'n edrych drwy'r ffenest fawr
A gwelaf ryfeddodau mawr
Mae cymaint i weled
O'r greadigaeth fawr

George Chapman 1921-2006

Ym mis Awst bu farw George Chapman, Pant Glas, Tre'r-ddôl, a ddisgrifiwyd mewn teyrnged yn y *Daily Telegraph* yn ddiweddar fel un o iachawyr mwyaf nodedig Ynysoedd Prydain. Gwnaeth enw rhyngwladol iddo'i hun wrth 'drin' cleifion trwy gyfrwng ysbryd gŵr arall, sef y Dr William Lang a fu'n llawfeddyg llygaidd yn Ysbyty Middlesex, Llundain rhwng 1880-1914. Roedd George Chapman yn frodor o Bootle, Lerpwl, ac fel mwyafrif ei gyfoedion ymunodd â'r gwasanaethau milwrol ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd yn 1939 yn gyntaf fel aelod o'r Warchodlu Wyddelig ac yna gyda'r Awyrlu.



Yn ystod blynyddoedd y rhyfel roedd wedi cwrdd a phriodi â Margaret May Dickinson. Yna ar ddiwedd y rhyfel cafodd swydd gyda'r frigâd dân yn Aylesbury, Swydd Buckingham. Newidiodd cwrw ei fywyd pan fu eu merch, Vivian, farw'n bedair wythnos oed yn 1945. Yn fuan wedi'r brofedigaeth hon cafodd gysur ysbrydolegol o ddeall bod ei ferch yn fyw ac yn iach yn y byd nesaf. Dros amser datblygodd y profiad hwn yn gyflwr o berlewyr ynddo gydag nifer o 'endïdau' yn siarad drwyddo. Y pwysicaf o'r endïdau hyn heb amheuaeth oedd 'Dr Lang' a esboniodd mai ei nôd oedd gwella cleifion. Yn 1956 gadawodd George Chapman ei swydd gyda'r frigâd dân i dreulio mwy o amser yn iachau, ac mewn dim o amser roedd yn fyd-enwog wrth i bobl heidio i'w gartref; roedd galw arno hefyd i gynnal clinigau'n rheolaidd mewn mannau megis Paris a Lausanne.

Ymhlith y llu o enwogion a ddaeth ato am driniaeth roedd yr awdures Elma Williams, a oedd wedi ymgartrefu ym Mhant Glas yn 1957 lle sefydlodd loches i anifeiliaid. Ceir pennod gyfan ar ei gwellhad wedi ymweld ag Aylesbury yn ei chyfrol *Heaven on my doorstep* – sef hanes ei bywyd ym Mhant Glas. Daeth y ddau a Syr George Trevelyan yn gyfeillion. Hi berswadiodd George Chapman i symud ei glinig o Aylesbury i Bant Glas yn y 1980au gan ei bod hi erbyn hynny'n cael y gwaith o gadw'r lloches anifeiliaid yn ormod; ar yr un pryd roedd George Chapman yn barod i ddianc i rywle mwy anghysbell er mwyn ysgafnhau'r baich ar ei waith yntau. Roedd Michael ei fab eisoes wedi bod draw ym Mhant Glas ac wedi anfon neges at ei dad ei fod yn fan delfrydol ar gyfer lloches iachau.

Estynnwn ein cydymdeimlad gyda'r teulu i gyd yn eu colled.



Byffalo dŵr

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faldwyn yn perchen gwarchodfa natur yng Glandyfi sef Cors Dyfi. Mae'n 50 acer o dir gwlyb a rhos. Mae'n gynefin bwysig i adar a mammaliaid fel glas y dorlan a dwrgwn ac i bryfed fel y gwas y neidr. Fel rhan o'r cynllun rheolaeth mae byffalos dŵr yn pori y tir. Ar hyn o bryd mae 3 buwch yna ond y bwriad yw i gael 12 yn y pen draw! Mae modd cerdded i'w gweld gan bod y warchodfa yn agored i'r cyhoedd ac mae llwybr pren wedi cael ei adeiladu. Os ydych eisiau ymweld â'r creaduriaid hynod mae nhw'n dwli am afalau! Efallai y bydd dosbarth stoc newydd yn sioe Tal-y-bont blwyddyn nesaf!

Noson o godi arian



Yn 2005 dechreuodd Kenneth Southgate gynt o Maesyderi, gystadleuaeth dartiau er cof am ei frawd Stevan Southgate. Eleni daeth 32 o chwaraewyr i gymeryd rhan a dyma'r canlyniadau.

Dynion

- 1 af Iori Jones, Ger-y-Nant, Tre'r Ddôl
- 2il Spencer Davies, 78 Maes-y-Deri, Tal-y-bont
- 3ydd Eric Roberts, 12 Maes-y-Deri
- 4ydd Johnny Southgate, 93 Maes-y-Deri

Merched

- 1af Anwen Southgate, 63 Maes-y-Deri
- 2il Maria Southgate, Dan-y-Dderwen, Talybont
- 3ydd Cath Jones, Ger-y-Nant, Tre'r Ddôl
- 4ydd Holly Morgan, 1 James Street, Tal-y-bont

Codwyd y swm o £450 tuag at Gofal Cancr. Hoffai'r teulu ddolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth a'u caredrigrwydd, ac yn arbennig i berchnogion y Llew Du, Tal-y-bont.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont



Noddwr tîm Ieuenctid Tal-y-bont B, Cyril, Jewellery House, Aberystwyth



Cefnogaeth i bêl-droedwyr ifanc

Derbyniodd Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal y-bont, sy'n cynnal timau o'r oedran 5 hyd 14, cit ac offer gan gynnwys bibiau, crysau hyfforddi, siacedi, coniau, poteli dŵr a stopwatshis a fydd yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n hyfforddi'r bechgyn. Croesawodd rheolwr y clwb, Brian Richards, y gefnogaeth a'i obaith yw y bydd hwn yn gymorth wrth i'r clwb geisio gwella bywyd cymdeithasol a datblygiad corfforol ieuenctid yr ardal.

Un a oedd yn falch iawn o'r rhodd oedd Julian Thomas o Fanc Barclays Aberystwyth, sydd ei hun yn un o feibion y pentref. Ei obaith ef yw y bydd y cyfraniad yn gymorth i weld mwy o lwyddiant i dimau Tal-y-bont yn y dyfodol.



Golffwraig Addawol

Llongyfarchiadau i Rhian Jones, Tal-y-bont, ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth a drefnwyd ar gyfer Diwrnod Capten yr Ieuenctid Clwb Golf Borth ac Ynyslas a gynhaliwyd ar 1 Medi.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Dechrau Boddhaol

Mae tim cyntaf Tal-y-bont wedi cael dechrau boddhaol yn ôl yn Adran Gyntaf Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch. Byddwn yn rhoi sylw llawn i gampau'r tîm yn y rhifyn nesaf o Bapur Pawb.

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technegydd Pensoernïol
Gellinrewydd, Tal-y-bont, Llandegion SY24 5HL
01970 632760

AM EICH HOLL
ANGHENION BRODWAITH,
CROESBWYTH A
THAPESTRIAU

GALWCH YN
**PWYTHAU'R
SGUBOR**

GER SIOP GOFFLA
CHREFFTAU PENNAU,
RHYDYPENNAU, BOW
STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970 820122



Mae'r tymor newydd wedi dechrau i bêl-droedwyr ifanc Tal-y-bont gydag enw newydd i'w clwb sef Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont. Mae'r enw yn adlewyrchu'r datblygiadau mawr diweddar wrth i dimau a fu'n chwarae dan yr enw Mini Minors Tal-y-bont ymestyn i gynnwys timau o blant hŷn o'r ysgolion uwchradd lleol.

Noddwr tîm Ieuenctid Tal-y-bont A, John â Maureen Y Llew Gwyn, Tal-y-bont

Mae gan y clwb naw tîm yn chwarae yng nghynghrair Aberystwyth, pedwar ar lefel ysgolion uwchradd a phump ar lefel ysgolion cynradd. Karen Evans sy'n gyfrifol am y tîm dan 15 mlwydd oed i ferched a Dic Squires sy'n rheoli'r tîm o fechgyn dan 14 mlwydd oed sydd ym mlynnyddoedd ysgol 8 a 9. Gan fod y rhan fwyaf o'r bechgyn ym mlwyddyn 8 ac yn chwarae 11 bob-ochr, disgwylir tymor anodd i'r tîm hwn eleni.

Mae dwy garfan i fechgyn dan 12 mlwydd oed sydd â'r enwau gwreiddiol o Tal-y-bont A a Thal-y-bont B! Mae tocynnau ar gyfer y derby cyntaf rhwng y ddau dîm ar 21 Hydref (y gic gyntaf am 10.30) yn gwerthu'n gyflym. Rheolwyr Tal-y-bont A yw Mark Ebeneser, gyda help Ceri Jones ac Alun Thomas, tra mae Siân James a Simon Campion, gyda chymorth Megan Williams, yn rheoli Tal-y-bont B.

Mae'r gêmiau ar gyfer ysgolion cynradd yn cael eu chwarae erbyn hyn ar faes ysgol Penweddig. Mae'r tîm cyntaf, dan ofal Brian Richards, wedi ennill un gêm 7-1 yn erbyn Penllwyn ond collwyd yn erbyn y Bleiddiaid 3-2. Roedd y tîm yn anlwus i golli yn y rownd go-gynderfynol yng Nghwpan RAFA eleni. Er i'r tîm beidio ag ildio yr un gôl yn ei holl gêmiau, collwyd ar giciau o'r smotyn.

Llongyfarchiadau i Ryan Thomas, Richard Jenkins, Harri Thomas, Gwenno Evans, Nia Jones ac Ellie Margrave Jones a ddewiswyd i gynrychioli Aberystwyth mewn amrwy o gystadleuthau yn ddiweddar.

Rhoddir mwy o sylw i'r timau eraill yn y rhifyn nesaf o'r papur.

BR

**TEIARS
HUW LEWIS TYRES**

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos